# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 43
25/01/21

## Y briodas yn Cana

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes, Kathryn Williams,
Elin Bryn a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

## Fersiwn Beibl.net



Dau ddiwrnod wedyn roedd priodas yn Cana, pentref yn Galilea. Roedd mam Iesu yno ac roedd Iesu a'i ddisgyblion wedi derbyn y gwahoddiad i'r briodas hefyd. Pan oedd dim gwin ar ôl, dyma fam Iesu'n dweud wrtho, “Does ganddyn nhw ddim mwy o win.”
Atebodd Iesu, “Mam annwyl, gad lonydd i mi. Beth ydy hynny i ni? Dydy fy amser i ddim wedi dod eto.” Ond dwedodd ei fam wrth y gweision, “Gwnewch beth bynnag fydd yn ei ddweud wrthoch chi.”



Roedd chwech ystên garreg wrth ymyl (y math sy'n cael eu defnyddio gan yr Iddewon i ddal dŵr ar gyfer y ddefod o ymolchi seremonïol). Roedd pob un ohonyn nhw'n dal rhwng wyth deg a chant dau ddeg litr.
Dwedodd Iesu wrth y gweision, “Llanwch yr ystenau yma â dŵr.” Felly dyma nhw'n eu llenwi i'r top. Yna dwedodd wrthyn nhw, “Cymerwch beth ohono a mynd ag e i lywydd y wledd.” Dyma nhw'n gwneud hynny, a dyma llywydd y wledd yn blasu'r dŵr oedd wedi'i droi'n win. (Doedd ganddo fe ddim syniad o ble roedd wedi dod, ond roedd y gweision oedd wedi codi'r dŵr yn gwybod.) Yna galwodd y priodfab ato a dweud wrtho, “Mae pobl fel arfer yn dod â'r gwin gorau allan gyntaf a'r gwin rhad yn nes ymlaen, ar ôl i'r gwesteion gael gormod i'w yfed. Pam wyt ti wedi cadw'r gorau i'r diwedd?”
Y wyrth hon yn Cana Galilea oedd y gyntaf wnaeth Iesu, fel arwydd o pwy oedd e. Roedd yn dangos ei ysblander, a dyma'i ddisgyblion yn credu ynddo. Ar ôl y briodas aeth Iesu i lawr i Capernaum gyda'i fam a'i frodyr a'i ddisgyblion, ac aros yno am ychydig ddyddiau.

*Ioan 2:1-12 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Un tro cafodd Iesu a’r disgyblion wahoddiad i briodas yn Cana, pentref yn Galilea. Roedd Mair, mam Iesu, yno hefyd. Roedd y gwesteion yn mwynhau’r wledd ond sylweddololdd Mair fod yna broblem. Dywedodd wrth Iesu, “Does dim gwin ar ôl.” Roedd Mair yn gwybod y byddai Iesu’n helpu. Gwelodd Iesu chwe jwg wrth ei ymyl. Dywedodd wrth y gweision, “Llenwch y jygiau yma hefo dŵr a thywalltwch beth ohono i gwpan a’i roi i lywydd y wledd.” Dyma’r gweision yn gwneud yr hyn ofynnodd Iesu iddynt ei wneud ac wrth iddynt dywallt y dŵr i’r gwpan wnaethon nhw sylweddoli fod y dŵr wedi troi’n win. Dywedodd y llywydd, “Dyma’r gwin gorau i mi ei flasu erioed.” Roedd Iesu wedi troi’r dŵr yn win. Hon oedd y wyrth gyntaf wnaeth Iesu er mwyn dangos mai ef oedd Mab Duw.



# Cwestiynau i’w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti wedi bod mewn parti priodas?
2. Sut wyt ti’n meddwl oedd trefnydd y briodas yn teimlo pan oedd y gwin wedi gorffen?
3. Pam wyt ti’n meddwl fod Mair wedi gofyn i Iesu helpu?
4. Pam wyt ti’n meddwl fod Iesu wedi gallu gwneud rhywbeth mor anhygoel?
5. Sut oedd y disgyblion yn teimlo am Iesu ar ddiwedd yr hanes?



# Gweddi fer




O Dduw, diolch i Ti am Iesu.
Diolch fod Iesu mor wych yn gallu gwneud gwyrthiau.
Diolch i Ti fod Iesu eisiau helpu pawb ym mhob sefyllfa.
Plîs helpa fi i gredu yn Iesu, fel roedd y disgyblion yn credu.
Amen.


# Stori i'w lliwio

# Iesu'n mynd i briodas

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Cafodd Iesu a'i fam, Mair, wahoddiad i briodas. Dyma'r hanes am wyrth gyntaf Iesu.



Roedd yna briodas yn mynd i fod. Roedd pawb yn brysur yn cael pethau'n barod. Gwahoddodd y priodfab a'r briodferch eu teuluoedd a'u ffrindiau. Roedd Iesu a'i ddisgyblion a'i fam, Mair, wedi eu gwahodd hefyd.



Roedd y briodferch yn edrych mor hardd. Llanwodd pawb eu cwpanau â gwin oedd wedi ei wneud o sudd grawnwin. "Ein dymuniadau gorau am fywyd hapus," galwodd y gwesteion.



Yn fuan iawn roedd y gwin wedi darfod. Roedd pawb yn gofyn am ragor ac roedd y gweision yn poeni. Byddai hyn yn difetha'r parti. Beth oedden nhw'n mynd i'w wneud?




Dywedodd mam Iesu, " Wnaiff Iesu eich helpu chi. Gwnewch beth bynnag y bydd yn ei ofyn i chi." Dywedodd Iesu, " Llenwch y jariau mawr yna â dŵr." A dyna'r gweision yn gwneud popeth yn union fel roedd Iesu wedi gofyn iddyn nhw ei wneud.



Wnaeth y gweision lenwi'r chwe jar mawr reit i'r brig â dŵr. Pan arllwyswyd y dŵr i'r cwpanau roedd gwyrth wedi digwydd.



Doedd y gwesteion erioed wedi blasu diod cystal â hwn. Dim ond y gweision wyddai mai Iesu drodd y dŵr yn win.




Ble bynnag mae Iesu'n mynd mae'n gwybod yn iawn sut i fendithio pobl. Gall ef roi'r bywyd GORAU UN i ni.


# Dolenni



Fideo o'r stori
https://www.youtube.com/watch?v=baTWKbwyobs




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/rQmpQaURUIk




Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=7plJa_qnVug



# Gweddi Greadigol

## Newid



Gwna ddiod o 'squash' mewn cynhwysydd tryloyw ac edrycha ar yr effaith pan fydd y sudd yn cael ei ychwanegu i'r dŵr.

Beth wyt ti am i Iesu ei wneud i ti? Yn gyntaf, rho ddŵr yn y gwpan ac yna ychwanega'r sudd/'squash.'
Bydd y dŵr yn newid ei liw yn raddol.
Wrth iddo newid ei liw, gofynna i Iesu dy newid di.
Beth wyt ti eisiau i Iesu ei wneud i ti?
Gofynna iddo newid y pethau sydd angen eu newid ynot ti.

## Rhannu cariad Iesu

**Byddi angen:**

- Gwydr gydag ychydig o ddŵr yn ei waelod
- Papur cegin
- Beiro
- Pin ffelt goch



**Sut i wneud:**


- Torra ddarn o bapur cegin ar ei hyd.
- Gwna siâp calon gyda beiro rhyw 3cm o waelod y papur.
- Lliwia'r galon yn goch.
- Gwna rhyw dair calon fach uwchben, ond paid a'u lliwio.
- Rho waelod y papur yn y dŵr a'i adael am ychydig.
- Gwylia i weld beth sy'n digwydd i'r lliw coch.

Roedd Iesu eisiau helpu'r bobl yn yr hanes.
Rhannodd ei gariad trwy wneud rhywbeth anhygoel – gwyrth.
Meddylia am ffordd y gelli di rannu cariad Iesu gyda rhywun.
Gofynna i Dduw ddangos i ti beth i'w wneud a sut i'w wneud.

# Posau

Fedri di ddilyn y llinell trwy'r jar i ddod o hyd i'r gwin (oedd yn ddŵr)?

Lliwia'r llun wedyn.


© Crafting the word of God

## Pos rhif 6

Yn y stori fe lanwodd y gweision 6 o lestri mawr gyda dŵr.
Beth ydy'r gair pwysig o'r stori sy'n cuddio yng nghanol y llythrennau?
Cyfra 6 llythyren i ddarganfod llythyren gyntaf y gair. Yna cyfra chwech eto i ddarganfod y llythyren nesaf. Gwna hyn eto hyd nes y bydd gennyt y 5 llythyren fydd yn rhoi'r gair i ti.
(Cofia fod llythrennau dwbl fel ch yn cyfri fel un llythyren!)

**B C D A U G F E LL P I W H O L**
**CH M Y PH S W N T R F NG E P C TH**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

## Lliwio yn ôl rhifau

Lliwia'r llun o'r gweision gan ddefnyddio'r cod rhifau.

1 = brown tywyll
2 = brown golau
3 = llwyd
4 = gwyrdd
5 = glas
6 = coch
7 = du
8 = melin



# Crefft





## Jar sgleiniog

**I wneud y jar sgleiniog byddi angen :**

Jar â chaead, olew babi, 'glitter,' jwg o ddŵr, tâp, llwy de, lliw bwyd coch, siswrn, glud, pinnau ffelt, papur gwyn.





**1**.Tynna'r label oddi ar y jar a gwna'n siŵr ei bod yn lân ar y tu mewn.




**2**.Llenwa hanner y jar ag olew babi.



**3**.Ychwanega un llwy de o 'glitter' i'r olew babi yn y jar.



**4**.Ychwanega'r lliw bwyd i'r dŵr yn y jwg a chymysga'r cyfan. Dal ati i ychwanegu'r lliw bwyd hyd nes y byddi'n hapus â'r lliw.




**5**.Arllwysa'r dŵr coch o'r jwg i'r jar. Llenwa'r jar hyd at y gwddf.



**6**.Rho'r caead yn ôl ar y jar a gwna'n siŵr dy fod wedi ei gau'n dynn. Selia'r caead â thâp.



**7**.Plyga'r papur drosodd 1cm a thorra stribed allan.



**8**.Lapia'r papur o gwmpas y jar. Wedyn torra'r papur i lapio'n union o'i chwmpas.




**9**.Ysgrifenna ar y papur: **Bydd Iesu'n dy helpu. Gwna'r hyn mae o eisiau i ti ei wneud**.



**10**.Gluda'r papur a'i lynu'n sownd o gwmpas canol y jar.

Dywedodd Iesu wrth y gweision yn y briodas Yn Cana i lenwi'r jariau mawr â dŵr. Pan wnaethon nhw dywallt y dŵr i gwpan roedd wedi troi'n win. Roedd Iesu wedi cyflawni gwyrth!

Dychmyga mai dyma'r dŵr wnaeth y gweision ei arllwys i'r jariau mawr.

Ysgydwa'r jar i weld beth fydd yn digwydd!!





# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | D | CH | D | J | DD | Y | N | F | E | R | T |
| A | W | B | E | T | A | U | C | A | N | A | D |
| L | E | A | G | W | Y | R | M | A | M | W | I |
| I | U | F | H | A | CH | C | R | E | D | U | S |
| L | D | D | C | O | Y | I | W | N | E | LL | G |
| E | E | O | R | M | DD | U | O | D | CH | U | Y |
| A | F | I | E | S | U | I | U | S | A | L | B |
| C | Y | R | R | E | S | M | A | R | I | O | L |
| U | W | P | A | I | RH | A | O | D | Ŵ | R | I |
| CH | CH | W | E | N | W | G | W | Y | R | TH | O |
| A | M | W | G | W | E | S | T | E | I | O | N |
| R | G | W | I | N | S | A | D | O | I | R | P |

AMSER
ATEB
BLASU
CANA
CREDU
CYMERWCH
CHWECH
DISGYBLION
DWEUD
DŴR
GALILEA
GORAU
GWAHODDIAD
GWEISION
GWESTEION
GWIN
GWNEWCH
GWYRTH
IESU
JAR
LLENWI
MAM
PRIODAS
PRIODFAB
TREFNYDD
YFED

# Sialensau

## Cwis - geiriau o'r stori

Ticiwch yr ateb cywir i bob gosodiad.

1. Dathliad o ddod yn ŵr a gwraig
   Dŵr Ocsiwn Priodas Gwin

2. Person a gyflogir i wneud swyddi i rywun arall
   Gwas Meddyg Athro Plismon

3. H20 ydy…
   Bagiau Te Dŵr Sudd oren

4. Diod wedi ei wneud o sudd grawnwin
   Te Gwin Coffi Siocled poeth

5. Nid y gwaethaf
   Dŵr Cyntaf Gorau Yr Enillydd



## Coctel ffrwythau

Beth am fynd ati i greu coctel ffrwythau i bawb yn y tŷ gan ddefnyddio sudd ffrwythau neu ddiod ffrwythau ("squash") blas gwahanol. Buaset yn gallu defnyddio dŵr pefriog hefyd a ffrwythau i addurno'r coctel.




## Ufuddhau

Yn y stori, pan ofynnodd mam Iesu iddo helpu fe wnaeth yn syth. Dy sialens di fydd gwneud o leiaf 3 pheth mae dy rieni yn gofyn i ti ei gwneud a hynny'n syth, heb oedi. (Pethau fel clirio teganau, mynd i'r gwely, gorffen gêm).

Fedri di wneud rhywbeth i helpu rhywun fel y gwnaeth Iesu?



# Gemau

## Dyfalu'r blas




**Byddi angen:**

- 3 neu 4 sudd neu ddiod ffrwythau
- Gwydrau diod
- Mwgwd

**Sut i chwarae:**

- Mae'r chwaraewr yn gwisgo mwgwd.
- Rho ychydig o sudd neu ddiod ffrwyth gwahanol, un ym mhob gwydr diod.
- Mae'r chwaraewr yn cael cyfle i flasu'r sudd neu'r ddiod ac yn ceisio dyfalu pa flas ydy o.
- Er mwyn gwneud y gêm yn anoddach, cymysga ddau sudd ffrwyth neu ddiod gyda'i gilydd i weld os fedr y chwaraewr ddyfalu pa ddau flas ydyn nhw.

## Ras gyfnewid dŵr – llenwch y jwg



**Byddi angen:**

- Jwg
- Cwpanau (Plastig er mwyn diogelwch)
- Dŵr
- Amserydd

**Sut i chwarae y tu allan:**

- Gosoda bwced o ddŵr yn un pen i'r ardd a'r jwg yn y pen arall. Yna rho gwpan i bob un o'r chwaraewyr.
- Yna rhedwch, mewn ras gyfnewid, i weld pa mor gyflym y gallwch chi lenwi'r jwg gan ddefnyddio cwpan fel y gwnaeth y gweision yn y wledd briodas.

**Tu Mewn:**

- Tra dy fod yn y bath ceisia weld pa mor gyflym fedri di lenwi'r jwg gan ddefnyddio'r gwpan!

# Canu

Aeth Iesu a'i ddisgyblion i Gana, Galilea;
Gwesteion mewn parti – priodas yn y dre.
Ond hanner ffordd drwodd
roedd 'na broblem fawr -
Nid oedd yna win yn y lle.

Roedd y priodfab yn poeni a
dwedodd wrth y trefnydd
"Bydd pawb yn siomedig,
siomedig ynof fi."
Wnaeth Mair, mam Iesu,
weld beth oedd yn digwydd;
a throdd at y gweision, dywedodd hi:

*Cytgan:*

**Beth bynnag mae O'n ofyn,**
**cofiwch ufuddhau;**
**Gwrandewch ar bob gair**
**mae Iesu'n ddweud;**
**Peidiwch byth ag oedi**
**oherwydd mae O'n gwybod,**
**Bob amser, y peth**
**gorau i'w wneud.**

Dwedodd Iesu wrthynt, "Chi'n gweld
y chwe jar garreg?
Llenwch nhw â dŵr nes eu bod yn llawn."
Fe wnaethant hynny a mynd
â pheth i'r trefnydd;
Ar ôl ei flasu dwedodd, "Mae'n dda iawn!"

Doedd neb yn gallu credu
bod gwin mor dda ar gael
yn enwedig y priodfab
nad oedd ganddo ddim.
Pwy oedd yn gwybod gallai
Iesu wneud gwyrthiau?
Doedd 'na neb yn gwybod am ei rym. (felly...)

*Hawlfraint 2021 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/rQmpQaURUlk

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org